# Newidiadau i'n fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y BBC

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2023

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 23 Mehefin 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Cefndir yr ymgynghoriad 2

3. Cynigion ar gyfer ymgynghori 8


## Atodiad


A1. Y Fframwaith arfaethedig 12

A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 13

A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 16

A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad 17

A5. Asesiadau effaith 19

A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad 21

# 1. Trosolwg

## Yr hyn rydym ni'n ei gynnig

Mae'r fframwaith mesur perfformiad presennol ('y Fframwaith'), a gafodd ei roi ar waith yn 2017, yn nodi'r mesurau perfformiad, y metrigau a'r prif ffynonellau data a ddefnyddir i fonitro ac asesu perfformiad y BBC. Rydym o'r farn bod y fframwaith o bedwar mesur perfformiad sy'n rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn dal yn effeithiol, ond mae angen diweddaru rhywfaint ar y manylion sylfaenol.

Rydym yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol i'r Fframwaith:

- Diogelu'r Fframwaith at y dyfodol drwy ddileu cyfeiriadau at ffynonellau data penodol i sicrhau nad yw'r ddogfen yn dyddio a chael gwared â'r cysyniad o 'set sylfaenol o dystiolaeth' ar gyfer pob Diben Cyhoeddus, i gael ei ddisodli gan ystod ehangach o enghreifftiau o ehangder y metrigau rydym yn eu defnyddio ar draws yr holl Ddibenion Cyhoeddus.
- Ehangu cwmpas ein dull o fesur effaith.

Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein cynigion i ddiweddaru'r Fframwaith.

# 2. Cefndir yr ymgynghoriad

2.1 O dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter), [1] mae'r BBC yn gyfrifol am sefydlu fframwaith i asesu ei berfformiad o ran cyflawni ei strategaethau a'i gylch gwaith creadigol,[2] a'i rwymedigaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y Cytundeb).[3] Mae hyn yn cynnwys mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny pan fo'n briodol) i fonitro perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn y DU yn cyflawni'r Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.[4]

2.2 Mae Ofcom hefyd yn gallu pennu ei fesurau ei hun, yn ychwanegol at fesurau'r BBC, yr ydym yn ystyried sy'n briodol er mwyn asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn y DU o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus.[5] Maen nhw'n elfen bwysig o sut mae Ofcom yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei wasanaethau cyhoeddus, drwy fod yn sail dystiolaeth i fonitro perfformiad y BBC dros amser. Fodd bynnag, yn wahanol i'r amodau rheoleiddio yn y Drwydded, does dim modd gorfodi'r mesurau perfformiad hyn eu hunain.

2.3 Mae ein mesurau perfformiad yn cael eu defnyddio fel hyn:

- i fesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus bob blwyddyn;
- i'n rhybuddio ni am feysydd posib sy'n peri pryder, y gallai fod angen ymchwilio pellach iddyn nhw, ac y gallai ddangos lle gall amodau rheoleiddio ychwanegol fod yn briodol yn y dyfodol;
- i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw adolygiadau a gynhelir gennym.

## Cefndir cyfreithiol ar gyfer mesur perfformiad

2.4 Daw pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, sy'n datgan er mwyn rheoleiddio'r BBC y bydd gennym bwerau a dyletswyddau a roddir i ni gan neu dan y Siarter a'r Cytundeb. Mae ein dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC. Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom yn cynnwys ei brif ddyletswydd sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a

---

[1] Siarter.
[2] Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter.
[3] Cytundeb.
[4] Erthygl 46(4) y Siarter.
[5] Wrth osod ac wrth ddiwygio'r Drwydded, mae'r Siarter yn nodi bod ein rôl ni wedi'i chyfyngu i wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Yn ymarferol, nid yw'r BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus drwy wasanaethau cyhoeddus yn y DU: "adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd". Fodd bynnag, wrth gynnal ein hadolygiadau cyfnodol, rhaid i ni ystyried perfformiad y World Service wrth gyfrannu at gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r BBC osod fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y World Service (erthygl 20 y Siarter) a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad y World Service yn ei adroddiad blynyddol, a chynnal adolygiadau o berfformiad y World Service o leiaf bob pum mlynedd (cymal 35 y Cytundeb). Rydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon, ac unrhyw wybodaeth berthnasol y gallai fod ei hangen arnom gan y BBC, wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[6]

2.5 Mae Erthygl 45(2) o'r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom ystyried, wrth gynnal ei swyddogaethau, y canlynol fel sy'n ymddangos i ni sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau:

- amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
- pa mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig;
- y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan y Siarter, gan gynnwys ei ddyletswyddau cyffredinol.

2.6 Mae Erthygl 46 o'r Siarter yn pennu y caiff Ofcom benderfynu ar fesurau (ar ben y rheini sy'n cael eu pennu gan y BBC) mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU wrth gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

2.7 Mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi fframwaith gweithredu.[7] Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y "Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r Mesurau Perfformiad" ('y Gweithdrefnau').[8] Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn y Gweithdrefnau (ac yn cymhwyso'r ystyriaethau y mae'n eu rhestru) ynghyd ag egwyddorion ymgynghori Ofcom.

## Y Drwydded Weithredu newydd

2.8 Ers i'r Drwydded Weithredu gyntaf a'r PMF gael eu gosod yn 2017, mae nifer o ddatblygiadau wedi bod yn allbwn y BBC, gan gynnwys lansio BBC Sounds, a buddsoddiad yn ei gynnig digidol yn unol â'i 'strategaeth ddigidol yn gyntaf'. Mae'r newidiadau wedi'u gosod yn erbyn cefndir o arferion gwrando a gwylio amrywiol a mwy o gystadleuaeth gan chwaraewyr masnachol rhyngwladol.

2.9 Yn ein datganiad diweddar ar Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, nodwyd bod yn rhaid iddo drawsnewid a moderneiddio er mwyn i'r BBC fynd i'r afael â'r heriau hyn a pharhau i gyflawni ei gylch gwaith.

2.10 Mae'r Drwydded Weithredu newydd yn cydnabod yr angen am reoleiddio mwy cynhwysfawr ar wasanaethau ar-lein y BBC yn erbyn cefndir trawsnewid digidol. Mae'r amodau newydd hyn yn cynnwys gofynion i sicrhau bod gwasanaethau ar-lein y BBC – y wefan, apiau, BBC iPlayer a BBC Sounds – yn unigryw a bod modd dod o hyd i amrywiaeth o gynnwys yn hawdd ar wasanaethau o'r fath.

2.11 Mae'r Drwydded hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC siapio ei wasanaethau a'i allbwn i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd. Er bod cwotâu'n dal yn nodwedd allweddol

[6] Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom hefyd yn cynnwys gofyniad ar Ofcom i ystyried, ym mhob achos, yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.

[7] Erthygl 46(2) o'r Siarter a Chymal 5(1) o'r Cytundeb.

[8] Ofcom, 2017. Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd: Mesurau Perfformiad (ofcom.org.uk)

o'r Drwydded, cafodd rhai cwotâu eu diwygio neu eu dileu er mwyn caniatáu i'r BBC fwrw ymlaen i ddatblygu ei allbwn a pharhau i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd. Er mwyn dal y BBC i gyfrif am gyflawni'r newid hwn a'i gylch gwaith, rydym wedi gwreiddio mwy o dryloywder yn y Drwydded drwy osod mwy o ofynion i'r BBC adrodd ar ei weithgareddau a'i allbwn. **Mae'r drwydded yn gosod gofynion penodol a manwl sy'n nodi beth mae angen i'r BBC adrodd yn ei gylch a phryd.** Mae'r rhain yn gorfodi'r BBC i gyflwyno gwybodaeth helaeth, gyda'i Gynllun Blynyddol, am sut bydd yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd, gan gynnwys cyfanswm oriau darlledu ac oriau cynnwys newydd, yn ôl genre. Yna, rhaid i'r BBC werthuso a yw wedi cyflawni'r cynlluniau hynny, gyda'i Adroddiad Blynyddol. Bydd yr wybodaeth hon yn hollbwysig o ran caniatáu i Ofcom ddal y BBC i gyfrif yn y meysydd hynny o'i ddarpariaeth nad ydynt yn ddarostyngedig i gwotâu.

## Monitro perfformiad y BBC

2.12 Rydym yn asesu cydymffurfiad â'r gofynion a nodir yn y Drwydded Weithredu ac, ar ben hynny, mae gennym raglen gynhwysfawr o brosesau monitro a goruchwylio perfformiad i sicrhau ein bod yn gallu craffu'n effeithiol ar berfformiad y BBC a nodi unrhyw feysydd sy'n achosi pryder posibl yn gyflym drwy gydol y flwyddyn.

2.13 Mae'r rhaglen fonitro hon yn dibynnu ar sawl ffynhonnell wybodaeth. Rydym yn defnyddio'r data a'r wybodaeth y mae'r BBC yn eu darparu yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol, yn ogystal â gwybodaeth o adroddiadau eraill y BBC fel ei Adroddiad ar y Cyflenwad Comisiynu. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth arall gan y BBC.[9]

2.14 Rydym yn cynnal ein dadansoddiad a'n hymchwil marchnad ein hunain, gan gynnwys Traciwr Perfformiad blynyddol y BBC, Traciwr Cyfryngau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Arolwg Cael Gafael ar Newyddion.[10] Rydym hefyd yn cynnal arolygon rheolaidd sy'n canolbwyntio ar y sectorau sain a fideo ar-alw ehangach. Rydym yn gallu addasu a newid y rhain yn ôl yr angen ac rydym yn comisiynu ymchwil ychwanegol lle bo angen.

2.15 Rydym hefyd yn defnyddio set eang o ffynonellau data annibynnol. Er enghraifft, rydym yn defnyddio data'r diwydiant a ddarperir gan BARB a RAJAR, yn ogystal â ffynonellau trydydd parti eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Ampere Analysis ac IPA TouchPoints. Mae llawer o'r ffynonellau hyn wedi canolbwyntio'n hanesyddol ar wasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu. Ond erbyn hyn, maent hefyd yn cynnwys gwybodaeth a data am ddefnydd ar-lein ac argaeledd cynnwys ar-alw. Rydym yn disgwyl gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth am berfformiad ar-lein dros gyfnod y Siarter.

---

[9] Mae hyn yn cynnwys y cais blynyddol am wybodaeth cydymffurfio rydym yn ei anfon cyn adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC, yn
ogystal â'r ffurflenni data blynyddol rydym yn eu casglu sy'n cyfrannu at ystadegau swyddogol, gan gynnwys goruchwylio oriau rhaglennu
a gwariant. Mae llawer o hyn hefyd wedi'i nodi yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol rydym yn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol.

[10] Mae gwybodaeth am y ffynonellau rydym yn eu defnyddio i asesu perfformiad y BBC ar gael yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol
rydym yn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol ar y BBC.

2.16 Mae'r Fframwaith, sy'n nodi'r fframwaith o fesurau a metrigau a ddefnyddir i fesur perfformiad y BBC, yn sail i'n dull gweithredu ar gyfer yr asesiadau a wnawn yn y gwaith monitro a goruchwylio hwn.

## Mesur perfformiad y BBC ei hun

2.17 Rhaid i Fwrdd y BBC sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Mae'n gosod fframwaith i asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei strategaethau a'i gylch gwaith creadigol, a'i rwymedigaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb. Mae hyn yn cynnwys mesurau i asesu perfformiad y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.[11]

2.18 Mae'r BBC yn nodi ei fframwaith mesur perfformiad ei hun bob blwyddyn yn ei Gynllun Blynyddol ac yn asesu ei berfformiad ar gyfer ei Genhadaeth a phob un o'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae'r BBC wedi datgan y bydd ei fframwaith yn sicrhau'r canlynol:[12]

- Asesu pa mor dda mae'r BBC yn darparu gwerth i gynulleidfaoedd;
- Gosod targedau i sicrhau bod gwerth yn cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd yn gyffredinol, er mwyn parhau i ganolbwyntio ar heriau allweddol i gynulleidfaoedd, a chyflymu gweithgarwch sy'n ganolog i ddarparu gwerth i gynulleidfaoedd yn barhaus ac yn y dyfodol.

2.19 Mae'r BBC yn tracio ac yn asesu ei berfformiad gyda chynulleidfaoedd gan ddefnyddio dau fetrig allweddol: gwerth profiad pobl, h.y. eu defnydd o gynnig y BBC, a gwerth tybiedig pobl, h.y. eu gwerthusiad o gynnig y BBC.[13]

2.20 Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y metrigau mae'r BBC yn eu defnyddio i asesu perfformiad gyda chynulleidfaoedd ar gael yn Atodiad 1 ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24. Mae'r BBC yn adrodd ar y data cynulleidfa hwn a data ar ei allbwn yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

## Trosolwg o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad presennol

2.21 Yn ogystal â mesurau perfformiad y BBC, mae mesur perfformiad Ofcom ei hun yn darparu asesiad cynhwysfawr o sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus gan ddefnyddio amrywiaeth eang o fetrigau a ffynonellau data.[14]

2.22 Mae'r Fframwaith yn nodi'r fframwaith ar gyfer mesur perfformiad y BBC ac mae ar wahân i gydymffurfio â'r Drwydded Weithredu. Nid oes yn rhaid i ni osod mesurau perfformiad ond rydym wedi dewis gwneud hynny i sicrhau ein bod yn gallu dal y BBC i gyfrif yn effeithiol. Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad presennol hwn yn nodi'r mesurau perfformiad ac ystod o fetrigau sylfaenol a ffynonellau data.

[11] Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter
[12] Cynllun Blynyddol 2023-24, tudalen 45
[13] Cynllun Blynyddol 2023-24, tudalen 45
[14] Wrth lunio ein mesurau perfformiad ein hunain o fewn y Fframwaith sy'n ychwanegol i'r rheini a fydd yn cael eu llunio gan y BBC, rhaid i ni ystyried y mesurau perfformiad sydd wedi cael eu nodi gan y BBC.

2.23 Dyma’r pedwar mesur perfformiad a nodir yn y Fframwaith presennol:

- **Argaeledd**: mae hyn yn disgrifio natur, math, swm ac amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael ar draws y BBC, yn ogystal â’r gwariant ar y cynnwys hwn.
- **Defnyddio:** mae hyn yn monitro i ba raddau y mae cynulleidfaoedd yn gwylio, defnyddio ac yn gwrando ar y cynnwys sy’n cael ei ddarparu gan y BBC.
- **Effaith**: sy’n edrych yn fanwl ar beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC, gan gynnwys pa mor fodlon ydyn nhw gyda gwahanol agweddau ar ddulliau hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus y BBC.
- **Ffactorau cyd-destunol:** Mae rhai elfennau o bob Diben Cyhoeddus nad oes modd eu mesur dim ond drwy’r mesurau uchod. Er enghraifft, byddai unrhyw asesiad o record y BBC o ran cymryd risgiau creadigol a darparu cynnwys arloesol yn elwa o ystyried dadansoddiad ychwanegol sy’n cael ei ddarparu gan y BBC, neu farn rhanddeiliaid yn y diwydiant.

2.24 Rydym yn defnyddio cyfuniad o’r mesurau hyn i asesu perfformiad yn erbyn pob Diben Cyhoeddus.

2.25 Mae’r gwaith rydym yn ei wneud i asesu perfformiad y BBC gan ddefnyddio’r Fframwaith yn cyfrannu’n uniongyrchol at amrywiaeth o allbynnau, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC a’n gwaith monitro parhaus. Er enghraifft, yn ein rhaglen waith monitro efallai y byddwn yn edrych ar bryder posibl, fel newid sylweddol yn allbwn y BBC mewn genre penodol. I asesu hyn, efallai y byddwn yn llunio asesiad sy’n cymharu swmp yr allbwn hwn â chyfnod blaenorol i fesur **argaeledd** yr allbwn i gynulleidfaoedd y DU. Efallai y byddwn hefyd yn asesu cyrhaeddiad yr allbwn ymysg grwpiau cynulleidfa penodol i asesu sut mae’r newid yn effeithio ar **ddefnydd** yn y grwpiau hyn. Ar ben hynny, efallai y byddwn yn edrych ar farn y gynulleidfa ynghylch a yw’r allbwn yn dal i deimlo’n berthnasol iddyn nhw, er mwyn asesu **effaith** bosibl y newid.

2.26 Mae gennym amrywiaeth gynyddol o ffynonellau data ac arolygon cynulleidfa ac felly mae metrigau ar gael a’n dealltwriaeth o’r ffordd orau o asesu perfformiad yn erbyn rhai amodau wedi datblygu, a byddant yn parhau i ddatblygu. Er enghraifft, mae gennym nawr arolygon sain a fideo ar-alw blynyddol i’n helpu i ddeall darpariaeth ar-lein y BBC yng nghyd-destun y sector ehangach ac rydym wedi ehangu Traciwr Perfformiad y BBC i gynnwys plant. Byddwn yn parhau i adolygu a chynnwys ffynonellau data newydd wrth iddynt esblygu, i fesur llwyfannau ar-lein yn ogystal â chomisiynu gwaith i ddeall canfyddiadau cynulleidfaoedd o wasanaethau ar-lein.

## Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

2.27 Rydym o’r farn bod fframwaith cyffredinol Ofcom o bedwar mesur perfformiad yn dal yn briodol ar gyfer ein ffordd ddiweddaraf o fesur perfformiad, ac felly rydym yn bwriadu ei gadw.

2.28 Yn ein barn ni, mae’r mesurau hyn yn parhau i ddarparu darlun cadarn a chyfannol o’r cynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd, y ffyrdd maen nhw’n ei ddefnyddio, a sut maen nhw’n ei weld. Rydym yn credu bod y cysyniadau o argaeledd, defnydd ac effaith yn niwtral

o ran platfform – fel sy'n cael ei ddangos gan sut rydym ni eisoes wedi esblygu ac rydym ni'n parhau i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth i ymgorffori'r broses o ddarparu cynnwys ar-lein. Ar ben hynny, mae'r mesur 'ffactorau cyd-destun' wedi'i ddiffinio'n fras ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd i ni asesu perfformiad y BBC yng nghyd-destun y farchnad ehangach.

2.29 Er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn briodol, rydym yn gwneud y newidiadau canlynol i'r Fframwaith:

- Sicrhau bod y Fframwaith yn aros yn addas ar gyfer y dyfodol drwy'r canlynol:
  - dileu cyfeiriadau at ffynonellau data penodol i sicrhau nad yw'r ddogfen yn dyddio;
  - dileu'r cysyniad o 'set sylfaenol o dystiolaeth' ar gyfer pob Diben Cyhoeddus, i gael ei ddisodli gan enghreifftiau o'r amrywiaeth o fetrigau rydym yn eu defnyddio ar draws yr holl Ddibenion Cyhoeddus.
- Ehangu cwmpas ein dull o fesur effaith.

2.30 Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein cynigion i ddiweddaru'r Fframwaith.

2.31 Byddwn hefyd yn diweddaru'r Fframwaith i gyfeirio at wasanaethau ar-lein penodol y BBC i adlewyrchu'r ffaith bod gwasanaethau ar-lein yn cael eu cynnwys yn fwy cynhwysfawr yn y Drwydded Weithredu newydd.

2.32 Byddwn yn diweddaru'r disgrifiadau o'r egwyddorion rydym yn eu defnyddio wrth greu'r Fframwaith. Bydd yr egwyddorion eu hunain yn aros yr un fath ond byddwn yn gwneud rhai mân newidiadau i sicrhau bod y disgrifiadau'n adlewyrchu ein dull esblygol o fesur perfformiad a'r Drwydded Weithredu newydd.

# 3. Cynigion ar gyfer ymgynghori

3.1 O dan y gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio mesurau perfformiad, mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r mesurau. Rydym yn bwriadu gwneud un newid bach i'r mesur effaith, a nodir isod. Nid oes gofyniad i ymgynghori ar newidiadau eraill yn y fframwaith mesur perfformiad ehangach a osodwyd yn 2017, gan gynnwys newidiadau i'r metrigau a'r ffynonellau data, ond rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol gofyn am farn am ein newidiadau arfaethedig.

## Diogelu'r Fframwaith at y dyfodol

### Dileu cyfeiriad at ffynonellau data penodol

3.2 Mae'r Fframwaith presennol yn disgrifio'r mesurau ac yna'n darparu crynodeb o'r prif ffynonellau data y bwriadwn eu defnyddio ym mhob mesur i fonitro sut mae'r BBC yn cyflawni'r Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

3.3 Fodd bynnag, ers ei gyhoeddi yn 2017, rydym wedi diweddaru ac ehangu'r metrigau a'r ffynonellau data sy'n sail i bob mesur perfformiad. O ganlyniad, ac fel y nodir, mae llawer o'r ffynonellau data sydd wedi'u cynnwys bellach wedi dyddio ac nid ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Rydym hefyd yn disgwyl i'r metrigau a'r ffynonellau hyn barhau i esblygu wrth i allbwn y BBC newid, wrth i'r farchnad ddatblygu, wrth i ymddygiad cynulleidfaoedd newid, ac wrth i ffynonellau data newydd a gwell ddod ar gael.

**Ffigur 1: enghraifft o'r ffynonellau data a nodwyd yn Fframwaith 2017**

| | Ffynhonnell y Data | Rhagor o Wybodaeth |
|---|---|---|
| **Mesur defnydd** | BARB (data'r diwydiant teledu sy'n cael ei ddarlledu) | Mae'r grwpiau cynulleidfa sy'n cael eu cwmpasu'n cynnwys amrywiaeth o ran oedran, rhywedd, grwpiau economaidd-gymdeithasol, cenedlaethol/rhanbarthol, ethnigrwydd a grwpiau anabledd. Hefyd, rydyn ni'n disgwyl cynnwys canfyddiadau o brosiect Dovetail BARB, sy'n mesur BBC iPlayer dros gyfnod y Siarter. |
| | RAJAR (data'r diwydiant radio) | Mae'r grwpiau cynulleidfa sy'n cael eu cwmpasu'n cynnwys amrywiaeth o ran oedran, rhywedd, grwpiau economaidd-gymdeithasol, cenedlaethol/rhanbarthol, ethnigrwydd a grwpiau anabledd. |
| | comScore (mesur y diwydiant ar-lein) | Mae'r grwpiau cynulleidfa sy'n cael eu cwmpasu'n cynnwys amrywiaeth o ran oedran, rhywedd a grwpiau economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â rhai mesuriadau rhanbarthol/y gwledydd. |

| | Ffynhonnell y Data | Rhagor o Wybodaeth |
|---|---|---|
| | Data gweinydd y BBC (defnyddio BBC iPlayer a gwefan y BBC) | Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y porwr ar hyn o bryd, sy'n golygu nad ydy'n bosib dadansoddi yn ôl grŵp cynulleidfa. Dylai fod yn bosib dechrau dadansoddi yn ôl grŵp cynulleidfa yn ystod cyfnod y Siarter. |
| | Mesuriadau ar draws cyfryngau'r BBC | Mae'r data yma'n bodoli, ond mae wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd yn cwmpasu amrywiaeth eang o grwpiau cynulleidfa. |

3.4 Mae Ffigur 1 yn ddyfyniad o dabl sy'n rhestru ffynonellau data ar gyfer pob un o'r pedwar mesur, fel enghraifft o'r mater sy'n effeithio ar ein holl fesurau. Mae'r ffigur yn cynnwys cyfeiriadau at nifer o ffynonellau sydd bellach wedi dyddio, er enghraifft comScore a mesur traws-gyfrwng y BBC. Ar ben hynny, mae rhai ffynonellau data allweddol rydym ni nawr yn eu defnyddio nad ydynt yn cael eu cynnwys, fel IPA Touchpoints.

3.5 Mae'r Fframwaith yn nodi nad yw'r rhestr hon o ffynonellau'n gynhwysfawr ac y gallai esblygu dros amser, ond credwn ei bod yn briodol manteisio ar y cyfle i ddiweddaru'r Fframwaith i sicrhau nad yw'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio.

3.6 Rydym yn dal yn bwriadu nodi'r math o ffynonellau rydym yn eu defnyddio yn y Fframwaith, ac mae'r manylion hyn wedi'u nodi ym mharagraffau 2.13 i 2.15. Ar ben hynny, cyfeirir at ein holl ffynonellau data drwy gydol Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC ac mae ehangder y data a ddefnyddir yn cael ei ddangos yn adroddiad data rhyngweithiol y flwyddyn sy'n cyd-fynd ag Adroddiad Blynyddol Ofcom.

## Ailfformatio cyflwyniad metrigau

3.7 Ar hyn o bryd mae'r Fframwaith yn nodi 'set sylfaenol o dystiolaeth' yr ydym yn ymrwymo i'w chasglu. Mae'r dystiolaeth hon ar ffurf metrigau penodol a nodir yn ôl Diben Cyhoeddus, gweler Ffigur 2 am enghraifft.

**Ffigur 2: enghraifft o'r 'dystiolaeth sylfaenol' ar gyfer Diben Cyhoeddus 1 o Fframwaith 2017**

| | |
|---|---|
| **Argaeledd** | Oriau o raglenni sydd ar gael ar y BBC.<br>• Mae'n cwmpasu holl wasanaethau teledu a radio'r BBC a BBC Three.<br>• Canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf. |
| | Gwariant ar allbwn ar draws gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein y BBC. |
| **Defnydd** | Cyrhaeddiad a'r amser sy'n cael ei dreulio ar allbwn newyddion a materion cyfoes ar draws y BBC. |

| Effaith | Agweddau cynulleidfaoedd at y ffordd y mae'r BBC yn darparu newyddion, gan gynnwys pwysigrwydd newyddion a gwybodaeth ddiduedd. |
| --- | --- |
| | Agweddau cynulleidfaoedd at y ffordd y mae'r BBC yn cyflawni o fewn cyd-destun marchnad ehangach cael gafael ar newyddion. |

3.8 Rydym o'r farn nad yw'r 'set sylfaenol o dystiolaeth' yn addas i'r diben mwyach, oherwydd mewn rhai achosion nid yw'r isafswm o fetrigau a nodwyd yn 2017 yn cael ei ystyried yn gynhwysfawr o'i gymharu â'r ystod o fetrigau rydym yn eu defnyddio heddiw i asesu perfformiad y BBC. O'r herwydd, rydym yn credu y byddai'n fwy defnyddiol nodi yn yr enghreifftiau o'r Fframwaith o'r ystod o fetrigau rydym yn eu defnyddio yn ein hasesiad o berfformiad, yn hytrach na nodi lefel sylfaenol o dystiolaeth.

3.9 Rydym felly yn cynnig dileu'r 'set sylfaenol o dystiolaeth', ac yn ei lle, gan nodi mwy o fetrigau enghreifftiol o dan bob mesur.

3.10 Ar ben hynny, rydym yn cynnig casglu'r metrigau hyn at ei gilydd yn hytrach na'u gosod allan yn ôl Diben Cyhoeddus. Mae llawer o'r metrigau sy'n cael eu rhestru ar hyn o bryd yn ailadrodd ar draws y Dibenion Cyhoeddus, oherwydd mae modd eu haddasu i asesu perfformiad amrywiaeth o amodau.

## Cysoni'r mesur perfformiad effaith

3.11 Mae'r mesur perfformiad 'effaith' presennol yn canolbwyntio ar ystyried barn cynulleidfaoedd am allbwn y BBC. Mae hwn yn fesur hollbwysig ar gyfer ein helpu i asesu perfformiad y BBC ac mae'n faes lle rydym yn darparu data unigryw drwy ein tracwyr ymchwil cynulleidfa pwrpasol. Gall y data hwn fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn achosion lle nad yw mesurau meintiol efallai'n rhoi darlun cyflawn – er enghraifft, wrth feddwl am natur unigryw cynnwys, sy'n gysyniad cymhleth y mae mesur argaeledd ac effaith yn berthnasol iddo.

3.12 Bydd barn cynulleidfaoedd am allbwn y BBC yn parhau yn elfen ganolog o'r mesur 'effaith'. Fodd bynnag, rydym yn credu y gallai fod metrigau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys metrigau a allai ein helpu i fesur effaith uniongyrchol, yn hytrach na thybiedig, cynnwys ar gynulleidfaoedd, a allai ein helpu i lywio ein hasesiadau.

3.13 Bydd y newid bach hwn yn rhoi hyblygrwydd i ni wrth i'n gwybodaeth a'n gwaith wrth asesu effaith y gwerth cyhoeddus mae'r BBC yn ei ddarparu esblygu. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gyfyngu i berfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

3.14 Mae ein diwygiad arfaethedig i eiriad y mesur perfformiad 'effaith' wedi'i nodi isod:

- **Disgrifiad presennol**: sy'n edrych yn fanwl ar beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC, gan gynnwys pa mor fodlon ydyn nhw gyda gwahanol agweddau ar ddulliau hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus y BBC.

- **Disgrifiad arfaethedig**: sy'n edrych yn fanwl ar beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC ac archwilio'r effaith y mae'r gwasanaethau a'r allbynnau hyn yn ei chael ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys eu boddhad ag agweddau amrywiol ar hyrwyddo'r BBC o'r Dibenion Cyhoeddus.

## Diweddariadau eraill i'r Fframwaith

3.15 Roedd ymgynghoriad 2017 ar y mesurau perfformiad yn nodi'r egwyddorion a ystyriwyd gan y tîm wrth ddatblygu'r mesurau perfformiad penodol.[15] Y rhain yw:

- Hyblygrwydd
- Cymesuredd
- Ymarferoldeb
- Tryloywder
- Dibynadwyedd/Cadernid
- Cymaroldeb

3.16 Mae'r un egwyddorion hyn wedi'u nodi yn y Fframwaith presennol. Rydym yn cynnig cadw'r chwe egwyddor ac rydym wedi eu cymhwyso i'n ffordd ddiweddaraf o feddwl. Fodd bynnag, yn y Fframwaith newydd, rydym yn bwriadu gwneud mân newidiadau i'r disgrifiadau o'r egwyddorion hyn i adlewyrchu ein syniadau diweddaraf a'r Drwydded Weithredu newydd. Er enghraifft, o dan 'ymarferoldeb' mae'r Fframwaith presennol yn nodi, "byddwn yn ystyried ffyrdd ansoddol amgen, ar sail ad hoc, er mwyn deall perfformiad yn yr achosion hynny lle mae hi'n arbennig o anodd lleihau i fetrig mesuradwy." Rydym nawr yn defnyddio metrigau ansoddol yn gyson yn ein hasesiad, nid dim ond ar sail ad hoc. Maent yn allweddol i'r dull mwy cynhwysfawr rydym wedi'i ddatblygu ers 2017 ac maent yn hanfodol er mwyn deall mwy am yr effaith ar gynulleidfaoedd. Maent hefyd yn fwyfwy pwysig yng ngoleuni rhai o'r amodau newydd sydd wedi'u cynnwys yn y Drwydded Weithredu newydd, er enghraifft gofyn i'r BBC ddisgrifio'r camau y bydd yn eu cymryd i wneud cynnwys yn hawdd dod o hyd iddo ar ei wasanaethau ar-lein. O'r herwydd, byddwn yn diwygio'r disgrifiad hwn i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

**Bydd y ffilm hon ar gael ar ein gwefan maes o law.**

1. Ydych chi'n cytuno â'n newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith? Os nad ydych, rhowch y rhesymau.
2. Ydych chi'n cytuno na fydd ein newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith yn cael effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Os nad ydych chi yn cytuno, rhowch y rhesymau.

[15] Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, ymgynghoriad. Tudalennau 51-52

# A1. Y Fframwaith arfaethedig

A1.1 Mae’r fframwaith mesur perfformiad arfaethedig wedi cael ei gyhoeddi ar wahân.

# A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 23 Mehefin 2023.

A2.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/changes-to-bbc-performance-measurement-framework. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i natalie.fox@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Nat Fox
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A2.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A2.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A2.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn

Atodiad 6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A2.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â natalie.fox@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A2.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A2.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.

A2.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A2.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan – Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion post, a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.

A2.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A2.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ym mis Gorffennaf 2023.

A2.17 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A2.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.

A2.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy’n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A2.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A3.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

______________________________________________________________________________

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw eich sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A5. Asesiadau effaith

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

A5.1 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A5.2 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

A5.3 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydyn ni'n asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A5.4 Nid ydym o'r farn bod gan ein cynigion oblygiadau cydraddoldeb o dan Ddeddf 2010 na Deddf 1998 gan mai bwriad pennaf y newidiadau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yw diogelu'r Fframwaith at y dyfodol.

A5.5 Nid ydym yn credu y bydd ein cynigion yn cael unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw rai o gategorïau cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Felly ein casgliad cychwynnol yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb manylach yng nghyswllt Gogledd Iwerddon ar gyfer y dulliau sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon.

## Effeithiau ar y Gymraeg

A5.6 Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur) yn rhoi fframwaith cyfreithiol a oedd yn gosod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.[16] Rydym wedi ystyried ein cynigion o dan Safonau Llunio Polisïau'r Gymraeg.[17] Rydym o'r farn na fydd y newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith yn cael unrhyw effeithiau andwyol, ond yn hytrach gallant gael effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym

[16] Nodwn fod adran 67 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer eithriad darlledu.
[17] Safonau 84 i 86 a 91 i 93 fel y nodir yn: Hysbysiad-Cydymffurfio44-Y-Swyddfa-Gyfathrebiadau-cy.pdf (ofcom.org.uk) ac yn Hysbysiad-Cydymffurfio44-Y-Swyddfa-Gyfathrebiadau-en.pdf (ofcom.org.uk)

o'r farn y gallai diogelu'r Fframwaith at y dyfodol a gwneud un newid bach i'r mesur effaith gael effeithiau cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg a'r ffordd mae'n cael ei thrin. Y rheswm am hyn yw y bydd gwella'r Fframwaith yn ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif yn well am gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.[18] Rydym yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein hasesiad arfaethedig o'r effaith ar y Gymraeg.

[18] Er enghraifft, rydym yn nodi bod Diben Cyhoeddus 4 yn datgan y dylai'r BBC sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig.

# A6. Cwestiynau’r ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Ydych chi’n cytuno â’n newidiadau arfaethedig i’r Fframwaith? Os nad ydych, rhowch y rhesymau.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno na fydd ein newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith yn cael effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Os nad ydych chi yn cytuno, rhowch y rhesymau.